Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

## Skills Competition Wales 2025/26 - Registration Guide

To participate in Skills Competition Wales 2025/26 registrations must be made through inspiringskills.gov.wales between 24 November 2025 and 5 December 2025.

This document will provide you with step by step guidance on how to register for a competition.

Step 1: Visit inspiringskills.gov.wales
Step 2: Click 'Register Now'
Step 3: On the 'Competition' drop down menu, select your chosen competition
Step 4: Continue with the form, inputting the relevant details as requested, ensuring that all sections are completed.

It is important that you record accurate information at the point of registration. This information will be used to contact you about the competition activity.

If you are under the age of 18 and/or entering an inclusive skills competition your registration will require parental/guardian consent:

- you will be asked to either; input your parent or guardian's email address, or print and return a signed consent form to Skills Competition Wales.
- After inputting a parent/guardian email address, Skills Competition Wales will email your parent/guardian requesting permission from them to enable you to participate in the competition.
- It is important that your parent/guardian responds to this email or returns a signed copy of the form. Without their permission, your place in the competition will not be confirmed and you will not be allowed to compete. Parental/Guardian approval is required by no later than Friday 12 December 2025.

The 'Employment Status' field is linked to the 'Entry capacity restrictions by organisation' as specified in each competition brief. The flow diagram overleaf demonstrates the capacity restriction process.

Step 5: Upon completing the form select 'Proceed to Confirmation'
Step 6: Subject to all relevant information being inputted correctly you will receive an email confirming your application. Your nominated 'point of contact' will also receive an email notification that you have entered Skills Competition Wales.

## Entry capacity restrictions by organisation

Each competition has restrictions in place for the number of competitors able to enter the competition. Please refer to each Competition Brief for further details on these restrictions.


These restrictions are determined by ‘location’ and ‘organisation’. ‘Organisation’ refers to the competitors’ training provider/employer. ‘Location’ refers to a site where the competitor studies / is employed.

A competitor will enter through selecting the appropriate employment status:

- Employed
- Self-employed
- Apprentice
- In Education or Training

When selecting the employment status ‘Apprentice’ we understand that the competitor will have an employer and a training provider. To ensure the capacity restrictions are recorded accurately supplementary questions are required.

The flow chart below outlines the registration process if ‘Apprentice’ is selected.



Cystadleuaeth Sgiliau Cymru
Skills Competition Wales

## Cystadleuaeth Sgiliau Cymru 2025/26 - Canllaw cofrestru

I gystadlu yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru 2024/25, rhaid mynd i inspiringskills.gov.wales i gofrestru rhwng 24 Tachwedd 2025 a 5 Rhagfyr 2025.

Bydd y ddogfen hon yn eich tywys trwy’r holl gamau cofrestru ar gyfer y gystadleuaeth.

Cam 1: Ewch i inspiringskills.gov.wales
Cam 2: Cliciwch 'Cofrestrwch Nawr'
Cam 3: Ar y gwymplen 'Cystadleuaeth', dewiswch y gystadleuaeth yr ydych am gofrestru ar ei chyfer.
Cam 4: Cwblhewch y ffurflen, gan roi’r manylion perthnasol yn ôl y gofyn a sicrhau bod pob adran yn cael ei chwblhau.

Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi gwybodaeth gywir ar y pwynt cofrestru. Defnyddir y wybodaeth hon i gysylltu â chi am weithgaredd y gystadleuaeth.

Os ydych chi o dan 18 oed a/neu'n cofrestru ar gyfer cystadleuaeth Sgiliau Cynhwysol, byddwch angen caniatâd gan riant/gwarcheidwad:

- Bydd gofyn i chi naill ai; roi cyfeiriad e-bost eich rhiant neu'ch gwarcheidwad, neu argraffu a dychwelyd ffurflen ganiatâd wedi'i llofnodi i Cystadleuaeth Sgiliau Cymru.
- Wedi i chi roi cyfeiriad e-bost rhiant/gwarcheidwad, bydd Cystadleuaeth Sgiliau Cymru yn anfon neges e-bost i’ch rhiant/gwarcheidwad yn gofyn am ganiatâd i chi gystadlu.
- Mae'n bwysig bod eich rhiant/gwarcheidwad yn ymateb i'r e-bost hwn neu'n dychwelyd copi o'r ffurflen wedi’i llofnodi. Heb eu caniatâd, ni chaiff eich lle yn y gystadleuaeth ei gadarnhau, ac ni fyddwch yn cael cystadlu. Bydd angen caniatâd gan rieni/gwarcheidwaid erbyn dydd Gwener 12 Rhagfyr 2025 fan bellaf.

Mae'r maes 'Statws Cyflogaeth' wedi'i gysylltu â'r 'Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad' sydd wedi’i nodi ym mrîff pob cystadleuaeth. Mae'r diagram llif ar y dudalen nesaf yn dangos y broses cyfyngiadau capasiti.

Cam 5: Ar ôl llenwi'r ffurflen, dewiswch 'Ewch ymlaen i Gadarnhau'
Cam 6: Os bydd yr holl wybodaeth berthnasol wedi’i mewnbynnu'n gywir byddwch yn derbyn e-bost yn cadarnhau eich cais. Bydd y 'pwynt

cyswllt' a enwebwyd gennych hefyd yn derbyn hysbysiad e-bost i ddweud eich bod yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru.

## Cyfyngiadau capasiti mynediad yn ôl sefydliad

Mae gan bob cystadleuaeth gyfyngiadau ar y nifer o gystadleuwyr a gaiff gystadlu. Edrychwch ar y Briffiau Cystadleuaeth unigol am ragor o fanylion am y cyfyngiadau hyn.

Pennir y cyfyngiadau hyn gan 'leoliad' a 'sefydliad'. Mae 'Sefydliad' yn cyfeirio at gyflogwr/darparwr hyfforddiant y cystadleuwyr. Mae 'Lleoliad' yn cyfeirio at y safle lle mae'r cystadleuydd yn astudio/cael eu cyflogi.

Bydd cystadleuydd yn cystadlu trwy ddewis y statws cyflogaeth priodol:

- Cyflogedig
- Hunan-gyflogedig
- Prentis
- Mewn Addysg neu Hyfforddiant

Wrth ddewis y statws cyflogaeth ‘Prentis’ rydym yn deall y bydd gan y cystadleuydd gyflogwr a darparwr hyfforddiant. Er mwyn sicrhau bod y cyfyngiadau gallu yn cael eu cofnodi'n gywir mae angen cwestiynau atodol.

Mae’r siart llif isod yn amlinellu’r broses gofrestru os dewisir ‘Prentis’.

